O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 193 (Cy.37)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, y Coldra i Gyffordd 26, Malpas) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *28 Ionawr 2011*

Yn dod i rym *7 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4), (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Chwefror 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 24, y Coldra i Gyffordd 26, Malpas) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" (*"exempted vehicle"*) yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at wneud y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 7 Chwefror 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro

ystyr "y darnau o'r draffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 to 11 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y gerbytffordd tua'r dwyrain nac ar y gerbytffordd tua'r gorllewin yn y darn o'r drafforddd a bennir yn Atodlen 1.

4. Pan fo symudiadau cerbydau, o dan erthygl 3, wedi eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain ond, yn unol ag erthygl 18, heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin ar y drafforddd, ac eithrio i gyfeiriad y dwyrain.

5. Pan fo symudiadau cerbydau, o dan erthygl 3, wedi eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r gorllewin ond, yn unol ag erthygl 18, heb eu gwahardd ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain ar y drafforddd, ac eithrio i gyfeiriad y gorllewin.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r slipffordd a bennir yn Atodlen 2.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r slipffordd a bennir yn Atodlen 3.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r slipffordd a bennir yn Atodlen 4.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r slipffordd a bennir yn Atodlen 5.

10. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r drafforddd a bennir yn Atodlen 6.

11. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 18, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu gyrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r drafforddd a bennir yn Atodlen 7.